

## Cynnwys a chynorthwyo disgyblion

### Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: [rebecca@ucac.cymru](mailto:rebecca@ucac.cymru) / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 01 Chwefror 2016 i'r cyfeiriad isod:

Y Gangen Lles Disgyblion  
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr  
Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

neu eu cwblhau'n electronig a'u hanfon i:

e-bost: [wellbeingshare@wales.gsi.gov.uk](mailto:wellbeingshare@wales.gsi.gov.uk)

Y categori sy'n eich disgrifio fel ymatebydd	Rhiant	<input type="checkbox"/>
	Athro/athrawes	<input type="checkbox"/>
	Llywodraethwr	<input type="checkbox"/>
	Awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>
	Sefydliad cenedlaethol/elusen	X

**Cwestiwn 1** – A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig? Os ydych yn anghytuno, eglurwch pam os gwelwch yn dda.

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

### Sylwadau ategol

Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau amser, ni fu'n bosib cyrraedd diwedd y ddogfen a rhoi sylwadau ar y ddogfen gyfan. Felly nid yw'n bosib rhoi sêl bendith i'r ddogfen yn ei chyfanrwydd.

**Cwestiwn 2** – A oes unrhyw feysydd pwnc eraill a ddylai gael eu cynnwys yn y ddogfen ganllawiau ddiwygiedig?

### Sylwadau ategol

**Cwestiwn 3** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod i ni amdanynt:

Yn gyffredinol, teimlwn bod angen rhoi mwy o sylw drwyddi draw yn y ddogfen at yr hawl i gael addysg a gwasanaethau perthynol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol ag anghenion a dymuniadau ieithyddol y plentyn a/neu ei deulu, yn arbennig felly mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac unrhyw ddarpariaeth dysgu ychwanegol y cyfeirir ati yn y canllawiau. Mae hynny'n wir ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn rhai prif-ffrwd, gan gynnwys ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.

**2.3.11 – 2.3.16:** Credwn y byddai'n briodol cyfeirio yn yr adran hon at y ddiwygiadau pellgyrhaeddol i'r cwricwlwm sydd yn yr arfaeth ar hyn o bryd. Yn sgil y diwygiadau hynny, teimlwn ei fod yn annoeth i gyfeirio ym mharagraff 2.3.12 at gwricwlwm 2008 fel cwricwlwm 'ar gyfer yr ugeinfed ganrif ar hugain.'

**3.2.1:** Ni theimlwn bod 'bygwth trefnu priodas' yn gyfieithiad addas ar gyfer 'threat of arranged marriages'. Efallai y dylid y ystyried y defnydd o 'forced marriage' yn Saesneg, gan mai'r term hwnnw sy'n cael ei gymeradwyo ar gyfer sefyllfa pan mae un neu fwy o'r partïon yn gwrthwynebu'r briodas a drefnir, mewn gwrthgyferbyniad ag 'arranged marriage' pan mae'r partïon yn fodlon â'r trefniant.

**3.5** Disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Er bod cyfeiriadau yn y paragraffau cyntaf at 'Cymraeg a/neu Saesneg fel Iaith Ychwanegol', buan iawn wedyn, ac am weddill yr adran, y cyfeirir at 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' yn unig. Teimlwn y dylid cywiro hyn ac y byddai'n briodol cyfeirio yma – ac o bosib mewn manau eraill yn y canllawiau at ddarpariaeth arbenigol o ran datblygu sgiliau Cymraeg gi hwyrdyfodiaid, a'r arfer dda sy'n

bodoli mewn rhai Awdurdodau Lleol. Gellid hyn yn oed cyfeirio at argymhellion y ddogfen: 'Cymraeg fel Iaith Ychwanegol: Ymchwil i lefel yr angen a'r cymorth presennol a roddir i ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig gydag anghenion cymorth yn y Gymraeg' (<http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-additional-language/?lang=cy>)

**3.11.1** A oes angen cyfeirio at y ffaith bod y canllawiau 'Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol' yn cael eu diwygio? Mae angen canllawiau llawer cadarnach ynghylch y lefel o gyfrifoldeb y mae'n rhesymol i ddisgwyl i staff ysgolion ei ysgwyddo o ran materion meddygol, ac mae'r drafodaethau hynny eisoes yn yr arfaeth.

**4.4.1 pwynt bwled 2** Nid ydym yn teimlo'i fod yn briodol i gyfeirio at bennaeth gyda rhagenw gwrywaidd ('iddo'); awgrymwn bod angen dod o hyd i ffordd niwtral o ran rhyw o fynegi'r frawddeg.

**4.4.12** A fyddai'n briodol cyfeirio at y ffaith bod y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn y broses o gael ei ddiwygio?

Yn anffodus, bu cyfyngiadau amser yn drech na ni, ac ni fu'n bosib darllen gweddill y canllawiau mewn digon o fanylder i roi rhagor o sylwadau.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

